OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 87

# Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016

**Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010**

**9.** Yn Atodlen 1, Rhan 1 (y gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru: gwarchod plant)—

(a) ym mharagraffau 2, 4, a 5 (gofynion mewn perthynas â'r ceisydd), yn lle "o dan wyth mlwydd oed" rhodder "o dan ddeuddeng mlwydd oed";

(b) yn lle paragraff 6 rhodder—

"**6.** Bod y ceisydd wedi darparu i Weinidogion Cymru dystysgrif cofnod troseddol fanylach.";

(c) ym mharagraffau 8, 9, a 10 (gofynion mewn perthynas â phersonau eraill: staff), yn lle "o dan wyth mlwydd oed" rhodder "o dan ddeuddeng mlwydd oed"; a

(d) yn lle paragraff 13(1) (gofynion mewn perthynas â phersonau eraill: pob person arall), rhodder—

"**13.**—(1) Bod pob person (ac eithrio'r ceisydd neu berson a grybwyllir ym mharagraff 8) sydd wedi cyrraedd 16 mlwydd oed ac—

(a) yn byw yn y fangre berthnasol,

(b) yn gweithio yn y fangre berthnasol, neu

(c) yn bresennol rywfodd arall yn y fangre berthnasol ac yn dod, neu'n debygol o ddod, i gysylltiad yn rheolaidd â phlant perthnasol,

yn addas o ran uniondeb a chymeriad da i gael cyswllt â phlant.".